Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print bras gan Lywodraeth Cymru, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Comins-Coch, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan Adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Mae angen y Gorchymyn er mwyn diogelu defnyddwyr y ffordd a'r gweithlu tra bo gwaith yn cael ei wneud i osod wyneb newydd ar Gefnffordd Caers☒s i Fachynlleth (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") yng Nghomins-coch yn Sir Powys.

Bydd y gwaharddiad dros dro canlynol, y codir arwyddion priodol am ei hyd a'i led, yn weithredol yn ystod oriau'r nos rhwng 18.00 o'r gloch a 06:00 o'r gloch o 3 Rhagfyr 2011 tan 5 Rhagfyr 2011 neu hyd nes y bydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n derfynol.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro unrhyw gerbyd rhag mynd ar y darn hwnnw o'r gefnffordd yng Nghomins-coch, yn Sir Powys, sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r C2083 (Capel Tŷ Cerrig) hyd at ganolbwynt ei chyffordd â'r C2082 (The Terrace).

Y llwybr amgen i gerbydau sy'n mynd tua'r de-ddwyrain fydd mynd ar yr A470 o Gomins-coch i gyfeiriad y gogledd-orllewin hyd at Gylchfan Glantwymyn. Wrth Gylchfan Glantwymyn ewch ar yr A470 i'r gogledd hyd at Gylchfan Mallwyd. Wrth Gylchfan Mallwyd ewch ar yr A458 i'r dwyrain i'r Trallwng. Yn y Trallwng ewch ar yr A483 i'r de-orllewin i'r Drenewydd ac yn y Drenewydd parhewch i fynd i'r de-orllewin ar yr A489 i Gaersŵs. Yng Nghaersŵs ewch ar yr A470 i'r gogledd-orllewin i Gomins-coch. Mae'r llwybr amgen i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n mynd tua'r gogledd-orllewin o Gomins-coch.

Er na ddisgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod, bydd yn aros yn ddilys am gyfnod o 6 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith ychwanegol oherwydd amgylchiadau nas rhagwelwyd.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau Statudol Lleol/Gorchmynion Traffig Dros Dro/2011).

M D BURNELL
Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Welsh Government, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

The A470 Trunk Road (Commins Coch, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2011

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers have made an Order under Section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The Order is necessary to safeguard the road user and the workforce whilst resurfacing works are carried out on the Caersws to Machynlleth Trunk Road (A470) (hereinafter referred to as "the trunk road") at Commins Coch, in the County of Powys.

The following temporary prohibition, the extent of which will be sign posted accordingly, will operate between the night time hours of 18:00 hours and 06:00 hours from 3 December 2011 until 5 December 2011 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit any vehicle from proceeding in that length of the trunk road at Commins Coch, in the County of Powys, which extends from the centre-point of its junction with the C2083 (Capel Ty Cerrig), to the centre-point of its junction with the C2082 (The Terrace).

The alternative route for south-eastbound vehicles will be to take the A470 from Commins Coch in a north-westerly direction to Cemmaes Road Roundabout. At Cemmaes Road Roundabout take the A470 north to Mallwyd Roundabout. At Mallwyd Roundabout take the A458 east to Welshpool. At Welshpool take the A483 south-west to Newtown and at Newtown continue south-west on the A489 to Caersws. At Caersws take the A470 north-west to Commins Coch. Vice versa for north-westbound vehicles from Commins Coch.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 6 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential work be required due to unforeseen circumstances.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.wales.gov.uk (Select: Legislation/Subordinate Legislation/Local Statutory Instruments/Temporary Traffic Orders/2011).

M D BURNELL
Orders Branch, Transport Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE